# Contractio ar Gyfer Preswylwyr Hunan-Gyllido

## Beth yw 'Preswyliwr Hunan-Gyllido'?

Os ydych wedi cael eich asesu i fod angen gofal Preswyl/Nyrsio ac mae gennych chi gynilion sy'n uwch na'r terfyn cyfalaf o £50,000 (22/23), bydd gofyn ichi dalu cost lawn eich gofal a byddwch yn cael eich adnabod fel 'preswyliwr hunan-gyllido'.

## A yw'r cyngor yn contractio ar gyfer Preswylwyr Hunan-Gyllido?

Yn flaenorol, polisi'r cyngor oedd peidio â llunio contractau ar gyfer preswylwyr hunan-gyllido, oni bai fod rhesymau penodol dros wneud hynny.

Felly, byddech wedi gwneud eich trefniadau eich hun gyda'r cartref gofal ac wedi cysylltu â'r cyngor pan oedd eich cynilion yn is na'r terfyn cyfalaf.

## Beth yw'r sefyllfa nawr?

Newidiodd y sefyllfa yn dilyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014), ac nawr mae gan Awdurdodau Lleol rwymedigaeth i gontractio ar gyfer preswylwyr hunan-gyllido os ydynt yn dymuno inni wneud hynny.

## Os wyf eisiau i'r Cyngor drefnu Contract Hunan-Gyllido, beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd eich rheolwr gofal yn trefnu'r contract a bydd hyn yn golygu y bydd angen ichi lofnodi **Contract Gofal Unigol (ICC) ar gyfer Lleoliad wedi ei Gomisiynu ar Ran Unigolyn Hunan-Gyllido.** Mae cyfradd y contract (y swm rydych yn ei dalu) yn cael ei negodi ar sail unigol gyda'r cartref gofal a gall y gost amrywio o gartref i gartref.

## A fydd ffi ar gyfer trefnu Contract Hunan-Gyllido?

**Bydd, cytunwyd y bydd y cyngor yn codi ffi cost-niwtral o £500 y flwyddyn ar gyfer y gwasanaeth hwn.** Bydd yr anfoneb gyntaf yn cael ei chyhoeddi pan fydd y tîm cyllid yn gwneud yr asesiad ariannol ac wedi hynny cewch anfoneb yn unol â dyddiad eich contract bob blwyddyn.

## Beth sy'n digwydd pan fydd fy nghynilion yn is na'r terfyn cyfalaf?

Pan fydd eich cynilion yn is na'r terfyn cyfalaf sy'n gymwys bryd hynny, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth ariannol tuag at gost eich ffioedd, felly daw'r contract a hunan-gyllido i ben nawr a threfnir contract newydd ar gyfradd yn unol â phris safonol y Cyngor.

## Taliad Cost Ychwanegol/Ychwanegiad gan Drydydd Parti

Os na fydd y cartref yn derbyn cyfradd safonol y cyngor, efallai y bydd yn mynnu Taliad Cost Ychwanegol/Ychwanegiad gan Drydydd Parti, felly mae hyn yn rhywbeth y dylid ei ystyried wrth benderfynu ar eich dewis o gartref gofal. (Bydd eich rheolwr gofal yn egluro mwy ynghylch hyn).

Bydd asesiad ariannol newydd yn cael ei gyfrifo i roi gwybod ichi o'r swm sydd angen ichi ei dalu tuag at gostau eich cartref gofal.

## Beth os wyf eisiau trefnu fy lleoliad yn breifat?

Os nad ydych am i'r cyngor gymryd rhan, gallwch wneud eich trefniadau eich hun gyda'r cartref gofal.

## Os wyf yn gwneud trefniadau preifat, beth wyf yn ei wneud pan fydd fy nghynilion yn lleihau?

Pan fydd eich cynilion yn is na'r terfyn cyfalaf, gallwch gysylltu â'r cyngor am gymorth ariannol tuag at gost eich gofal. Dylai fod gan eich cartref gofal daflen wybodaeth **'Help ar gyfer Hunan-Gyllido'** gyda'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi a beth i'w wneud bryd hynny.

## Beth os oes gennyf rai cwestiynau cyn penderfynu ar Gontract Hunan-Gyllido?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich arian a gwneud penderfyniad ynghylch a ydych am i'r cyngor gymryd rhan, gallwch gymryd cyngor annibynnol, siarad â'ch rheolwr gofal neu gallwch gysylltu â ni gydag unrhyw gwestiynau drwy:

Ffôn: 01656 643643
E-bost: psresidentialteam@bridgend.gov.uk